



barcud

CYLCHLYTHYR
Chwefror 2022

Neges gan Steve Jones Prif Weithredwr y Grŵp



Blwyddyn Newydd Dda

Ers y llythyr newyddion diwethaf, rydym wedi dathlu pen-blwydd cyntaf Barcud. Bu'n flwyddyn brysur dros ben ac rwy'n falch iawn o'm holl gydweithwyr. Hoffwn ddiolch i bawb yng Ngrŵp Barcud, gan gynnwys yr is-gwmnïau, am eu holl waith caled yn ystod blwyddyn heriol arall.

Creuddyn

Ddiwedd 2021, cafodd Creuddyn yn Llanbedr Pont Steffan ei agor yn swyddogol. Mae'r Ganolfan Fusnes eisoes wedi cael ei thraed tani ac mae'n adnodd ardderchog i'r gymuned. Mae'r unedau busnes unigol eisoes yn llawn ac mae ymholiadau'n dod i law yn ddyddiol ynghylch llogi'r manau cyfarfod a'r desgiau sydd ar gael i'w rhannu. Bydd Barcud yn defnyddio'r cyfleuster cynadledda i gynnal holl gyfarfodydd y bwrdd yn y dyfodol. Mae ystafelloedd cyfarfod a desgiau i'w rhannu ar gael i'w llogi fesul awr. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi anfon e-bost i post@creuddyn.cymru.

Uwchgynhadledd Dai yn Torri Tir Newydd

Ddydd Gwener 5 Tachwedd, cafodd uwchgynhadledd dai gorllewin Cymru ei chynnal am y tro cyntaf erioed yng Nghanolfan Creuddyn a oedd newydd gael ei hagor yn Llanbedr Pont Steffan. Daeth y gynhadledd hybrid a drefnwyd gan Keith Henson, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion a'r Gororau, â phleidiau gwleidyddol, arbenigwyr ym maes tai a chyllid, a grwpiau ieuencid a grwpiau cymunedol ynghyd i drin a thrafod yr argyfwng sy'n wynebu cymunedau gwledig gorllewin a chanolbarth Cymru o ran tai.

Mae angen i ni fod ynghanol y drafodaeth hon er mwyn cynorthwyo pobl leol a'n cymunedau lleol. Rhaid i dai fforddiadwy o safon i helpu ein cymunedau yn y canolbarth a'r gorllewin fod yn flaenoriaeth i ni. Gyda Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy fyth mewn cartrefi fforddiadwy, mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu cynnig cartrefi diogel i bobl leol ac ystyried ffyrdd

arloesol newydd o ddarparu cartrefi yn ein hardaloedd gwledig.

COVID

Erbyn hyn, mae pob un ohonom yn hen gyfarwydd â'r cyfyngiadau y mae Covid wedi'u rhoi arnom. Bu'n flwyddyn heriol i bawb, ac yn enwedig felly i'r sawl sydd wedi colli anwyliaid. Roedd yn drist gweld cynifer o ddigwyddiadau Nadolig yn cael eu hatal oherwydd cyfyngiadau newydd, ond rwy'n siŵr bod hynny'n bris bach i'w dalu er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

Mae ein timau tai a chynnal a chadw yn dal i weithio'n galed i gynorthwyo ein tenantiaid ac yn dal i gynnal ymweliadau yn ôl yr angen. Byddwch yn amyneddgar; mae ein cydweithwyr a'u teuluoedd yn gorfod ymdopi ag achosion o Covid hefyd.

Newyddion Gwych gan TPAS Cymru i Orffen 2021!

Llongyfarchiadau i aelodau Grŵp Monitro Barcud ar ennill un o Wobrau Arfer Da TPAS eleni, sef Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Beirniaid. Mae'r wobr hon yn cydnabod holl waith caled y tenantiaid mewn cydweithrediad â thîm cyfrangiad tenantiaid Barcud. Mae'n dipyn o gamp. Mae'n wych bod yr holl waith caled yn cael ei gydnabod wrth i ni addasu i'r newidiadau a ddaeth i'n rhan yn sgil yr uno a Covid yn ystod ein blwyddyn gyntaf fel Barcud.

Rhodd Nadolig

Eleni, cafodd rhodd Nadolig Barcud ei rhannu rhwng y banciau bwyd a'r oergelloedd cymunedol ledled Ceredigion a Phowys. Cafodd pob un o'r 13 phrosiect sic o £100 i helpu gyda phwysau ychwanegol cyfnod y Nadolig. Dyma Rhodri Beaumont, un o tîm Cynnal, yn cyflwyno sic i Nicola King, Cydlynnydd Oergell Gymunedol Aberporth. Am ddarllen mwy? Ewch i barcud.cymru/newyddion.



Diweddariad gan Grŵp Monitro Barcud

Helô bawb,

Gobeithio eich bod yn cadw'n iawn a'ch bod yn neilltuo amser i wenu ar y pethau bach mewn bywyd sy'n rhoi plaser i ni, er gwaethaf popeth sy'n digwydd yn y byd mawr y tu allan.

Ers ein diweddariad diwethaf, mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu hamser a'u hymroddiad. Ym mis Hydref, cynhaliodd y grŵp Gynhadledd ar-lein gyntaf Barcud i Denantiaid, lle cafodd y tenantiaid gyfle i gwrdd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a siarad â nhw. Cyflwynodd y grŵp ei adroddiad blynyddol cyntaf hefyd, sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan Barcud: Adroddiad-Blynyddol-Grwp-Monitro-Barcud-2020-21-cym.pdf.

Cynhaliodd y grŵp ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf hefyd. Cafodd Vic Brown, Peter Deakin a minnau ein haillethol yn swyddogion a chafodd aelod newydd, sef Kelli DiCapri, ei hethol yn Ysgrifennydd y grŵp.

Mae'r aelodau wedi bod yn cymryd rhan yn llawn mewn ystod eang o gyfarfodydd â thimau Barcud, lle caiff safbwyntiau'r tenantiaid nid yn unig eu ceisio ond hefyd eu gwerthfawrogi a'u defnyddio er mwyn llunio gwasanaethau'n awr ac yn y dyfodol. Buom hefyd yn cymryd rhan yn yr adolygiad cyntaf o amcanion cynllun busnes Barcud ar y cyd â Bwrdd Barcud, y Prif Weithredwr, y Tîm Arwain a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys sesiwn gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi iddi ddadansoddi ôl troed carbon Barcud. Mae'r newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddatgarboneiddio o'r pwys mwyaf i Barcud. Bydd y grŵp yn chwarae rhan lawn wrth i'r rhaglen hon fynd rhagddi.

Mae'n bleser gen i nodi hefyd bod safonau'r grŵp ar gyfer ailosod eiddo a rheoli ystadau wedi'u hadolygu a'u mabwysiadu gan Barcud. Mae'r aelodau yn archwilio eiddo gwag unwaith eto cyn iddo gael ei ailosod, er mwyn sicrhau bod yr eiddo o safon uchel, ac maent yn archwilio ystadau er mwyn sicrhau bod Barcud yn bodloni'r safonau gwasanaeth a bennwyd. Fel tenantiaid, rydym yn cael yr un gwasanaethau ac yn defnyddio'r un dulliau cyfathrebu â chi. Mae hynny'n ein helpu i nodi'n sydyn y



meysydd y mae angen eu gwella, a'u dwyn i sylw Barcud.

Ganol mis Rhagfyr, enillodd Barcud a Grŵp Monitro Barcud Wobr Cydnabyddiaeth Arbennig gan TPAS Cymru ar gyfer "Gweithio fel Un". Dyma'r tro cyntaf i TPAS Cymru ddyfarnu'r wobwr hon ac roedd Barcud a'r Grŵp Monitro yn falch iawn o'i derbyn.

Mae 2022 yn argoeli'n flwyddyn brysur arall i'r grŵp a Barcud wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Rheoliadau Tai ei hun a'i rhaglen ddatgarboneiddio, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru 2, ac wrth i Barcud barhau â'i gynlluniau i wella ein cartrefi. Nid oes neb yn y Grŵp Monitro na Barcud yn credu bod popeth yn berffaith ac rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud. Byddwn yn parhau i gydweithio wrth i bethau symud yn eu blaen.

Os hoffech wybod mwy am y grŵp a'n gweithgareddau, mae croeso i chi fynychu un o'n cyfarfodydd misol.

Rydym yn dal yn awyddus i recriwtio aelodau o ardal Machynlleth ac ardal Llandrindod, ond mae croeso i bawb.

Os hoffech alw heibio, mae croeso i chi gysylltu â Sue Thomas, Uwch-swyddog Cynnwys Tenantiaid trwy ffonio 0300 111 3030 neu anfon e-bost i: post@barcud.cymru.

Cofiwch ddarllen adroddiad blynyddol y grŵp ar wefan Barcud. Mae modd gofyn am gopi papur trwy gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid neu â Sue.

Cadwch yn iach ac yn ddiogel, a pheidiwch ag ofni cysylltu â Barcud os oes angen help neu gyngor arnoch ynghylch eich tenantiaeth.

Dymuniadau gorau
Paul Clasby, Cadeirydd.



I Gysylltu â Barcud

Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030

Pwyswch 1 (tenantiaid TC blaenorol)

Gwasg 2 (tenantiaid blaenorol MWA)

Tenantiaid Newydd Barcud?

Eisiau gwybodaeth leol am ein gwaith?

Pwyswch 1: Os ydych yn byw yng
Ngheredigion

Pwyswch 2: Os ydych yn byw ym Mhowys

Trwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan,
Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Ar-lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' o'n gwefan

Ebost: post@barcud.cymru

Facebook: Barcud

Twitter: [@taibarcud](https://twitter.com/taibarcud)

Deddf Rhentu Cartrefi 2016

Yn 2022, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau sylweddol i'r modd y caiff eiddo ei osod ar rent.

Mae disgwyl i Ddeddf Rhentu Cartrefi 2016 gael ei chyflwyno ym mis Gorffennaf 2022 a bydd yn newid y modd y mae holl landlordiaid Cymru yn gosod eu heiddo ar rent.

Nod y ddeddf yw gwella'r modd y caiff eiddo ei osod ar rent a'i reoli a'r modd y mae pobl yn byw ynddo. Bydd hynny'n ceisio gwneud y broses rentu yn symlach ac yn fwy tryloyw.

Mae ein tîm yn Barcud wrthi'n gweithio y tu ôl i'r llenni ar hyn o bryd i ddiweddarau popeth ar eich rhan. Nid oes angen i chi wneud dim ar hyn o bryd, a byddwn yn cysylltu â chi maes o law gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

Digwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig yn yr Ystog



Cafodd tenantiaid a phreswylwyr eu gwahodd i addurno tu allan eu cartrefi mewn modd Nadoligaidd gan ddefnyddio goleuadau Nadolig, arddangosfeydd mewn ffenestri, neu unrhyw beth a oedd yn dangos ysbryd y Nadolig ar ystadau Orchard Close a Ridgeway View yn yr Ystog.

Bu'r preswylwyr yn gweithio'n galed i ychwanegu ychydig o liw i'r Ystog a sicrhau bod mis Rhagfyr yn fis i'w gofio!

Cafwyd rhai danteithion Nadoligaidd yn rhodd gan siop y Midcounties Co-op yn yr Ystog, a chawsant eu rhoi i'r holl gartrefi a gymerodd ran. Roedd yn hyfryd siarad â'r preswylwyr a'r plant ar yr ystadau a mynd i hwyl yr ŵyl. Bu corachod Siôn Corn yn pendroni gryn dipyn cyn dewis yr ymgais orau. Cafodd hamper hyfryd, a oedd hefyd yn rhodd gan siop y Midcounties Co-op, ei roi yn wobwr am yr "Arddangosfa Orau o Oleuadau Nadolig".

Diolch i siop y Midcounties Co-op yn yr Ystog am y rhoddion ac i'r holl breswylwyr a gymerodd ran.



Clive Bosel o siop y Midcounties Co-op yn yr Ystog.

Diweddariad Ynghylch Gwaith Datblygu

Bwletin Newyddion ar Gyfer Mis Ionawr

Blwyddyn Newydd Dda gan y Tîm Datblygu.

Cafodd 18 eiddo ym Maes Corton, Llanandras eu trosglwyddo ar 10 Rhagfyr, gan gynnwys 12 eiddo i'w gwerthu ar y farchnad agored, pedwar eiddo rhentu i berchnogi a dau eiddo sy'n dai cymdeithasol. Rydym yn disgwyl y bydd yr 18 eiddo sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo i Barcud erbyn mis Mawrth.

SJ Roberts yw'r contractwr ym Maes Corton, Llanandras a chafwyd adborth cychwynnol cadarnhaol iawn gan brynwyr a thenantiaid. Mae pob un o'r 12 eiddo sydd i'w gwerthu ar y farchnad agored wedi'u cadw ac mae un wedi'i gwblhau. Mae pob un o'r 14 o dai rhent wedi'u dyrannu ac mae pobl eisoes yn byw mewn dau ohonynt. Mae chwe eiddo rhentu i berchnogi wedi'u dyrannu hefyd, ac mae dau dŷ â dwy ystafell wely a dau fyngalo â dwy ystafell wely ar gael o hyd.

Mae Ridgeway View yn yr Ystog wedi'i gwblhau ac mae pobl yn byw mewn chwech o'r 10 eiddo. Felly, mae pedwar byngalo â dwy ystafell wely, fel y gwelir isod, yn cael eu marchnata ar hyn o bryd.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud hefyd yn Nôl Dalis yn Llanbedr Pont Steffan: mae pedwar tŷ â dwy ystafell wely a phedwar tŷ â thair ystafell wely ar gael yno. Roedd Morgan and Davies wedi bod yn marchnata'r cartrefi hyn ychydig cyn y Nadolig ac roedd nifer dda o bobl wedi dangos diddordeb ynddynt. Mae disgwyl i'r datblygiad gael ei gwblhau yn gynnar eleni.

Gall y Tîm Datblygu sôn am gynnydd da hefyd ar y safleoedd adeiladu sydd ym Maes y Cledrau, Llansanffraid; Heol Dinas, Aberystwyth; Maes Llanio, Blaenplwyf; a William Ainge, Y Trallwng ac mae safleoedd newydd cyffrous eto i ddod yn y flwyddyn newydd.



Mynd i'r Afael â Sbwriel

Aeth Helen James (Uwch-swyddog Cynnal a Chadw) a Jo Hughes (Swyddog Tai) i William Ainge Court ar 18 Tachwedd gyda swyddogion Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Powys. Ar ôl i'r tenantiaid fynegi pryder, treuliyd bore yn mynd i'r afael â phroblemau gwaredu gwastraff, gan drefnu bod bagiau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer gwastraff meddygol a threfnu cymorth i gasglu sbwriel ar gyfer y tenantiaid yr oedd angen help llaw arnynt.



Diolch am Ddiolch!

Rydym bob amser yn falch o gael ein canmol, ond mae wir yn hwb i'r galon pan fydd tenant yn mynd allan o'i ffordd i gysylltu â ni er mwyn diolch yn bersonol i un o'n cydweithwyr. Diolch i Mr a Mrs G Edwards o Faes Arthur am eu canmoliaeth i un o dîm Medra, sef Justin Quinn, ar ôl iddo orffen gwneud ychydig o waith saer yn eu fflat. Mae'r staff cynnal a chadw wedi bod yn gweithio trwy gydol Covid ac maent yn parhau i gynorthwyo ein tenantiaid.

Diffibriliwr

Mae diffibriliwr wedi'i osod erbyn hyn yng Nghynllun Tai Gwarchod Rheidol Place, Aberystwyth. Dyma'r un diweddaraf i gael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol Barcud.

Diolch i Jean Davies, sy'n un o denantiaid Rheidol Place, am ddechrau'r broses a chyflwyno cais.



Diweddariad Ynghylch y Prosiect STEP

Mae'r Prosiect Step wedi bod yn gweithredu ers chwe mis ac rydym wedi ymgartrefu'n dda yn ein swyddfa yng Nghanolfan Creuddyn, Llanbedr Pont Steffan.



Beth Sydd Wedi Bod yn Digwydd

Mae 40 o bobl wedi cofrestru gyda ni yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gymryd y cam nesaf at gael y sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant y mae arnynt eu hangen i gael eu swydd ddel-frydol. Rydym wedi helpu busnesau bach a mawr yng Ngheredigion i ddod o hyd i weithwyr a thalu cyflogau, er mwyn helpu'r busnesau i gael eu traed tanynt ar ôl y pandemig a helpu ein cyfranogwyr i ddechrau i waith.

Rydym yn darparu hyfforddiant yn yr ystafell hyfforddi wych yng Nghanolfan Creuddyn, sydd â'r cyfleusterau diweddaraf ac sydd wrth fodd ein hyfforddwyr a'r cyfranogwyr. At hynny, mae pawb yn falch iawn o gael y cinio yr ydym yn ei ddarparu'n rhad ac am ddim o'r Town Hall Deli yn Llanbedr Pont Steffan.

Hyd yn hyn, rydym wedi cyflwyno cwrs Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng a Chwrs Llythrennedd Digidol chwe wythnos o hyd.

Mae'r cyrsiau hyfforddiant wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda phobl yn cael hyfforddiant wedi'i achredu a thystysgrifau'n rhad ac am ddim.

Mae pobl o bob cwr o Geredigion yn mynychu'r cyrsiau, oherwydd gallwn dalu costau eu taith yn ôl ac ymlaen i Ganolfan Creuddyn yn Llanbedr Pont Steffan a darparu cinio.

Newyddion Gwych ar Gyfer 2022

Rydym wedi cael cadarnhad bod modd i ni dalu am wersi gyrru i gyfranogwyr cymwys. Mae hynny'n golygu bod modd i ni ddileu rhagor o'r rhwystrau i waith ar gyfer pobl Ceredigion.



Swyddi Gwag

Ar hyn o bryd, mae gennym y swyddi gwag canlynol gyda chwmnïau lleol:

Gweinyddwr Cyllid - 16 awr yr wythnos, Llanbedr Pont Steffan

Derbynnydd - 16 awr yr wythnos, Aberaeron

Gwaith Paratoi Tir a Gwaith Saer - 16 awr yr wythnos, Aberystwyth

Cynorthwyr Eiddo - 16 awr yr wythnos, Aberteifi

Cynorthwyr Gweinyddol - 16 awr yr wythnos, Aberystwyth

Cofiwch gysylltu os oes gennych ddi-ddordeb yn unrhyw un o'r swyddi gwag hyn. Gan fod hwn yn Brosiect Cynhwysiant Gweithredol a gaiff ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, rhaid i'r ymgeiswyr fod yn 25 oed neu'n hŷn a rhaid eu bod yn ddi-waith ers amser hir neu'n economaidd anweithgar.

Peidiwch â cholli'r cyfle! Ffoniwch, anfonwch e-bost neu ewch i'n tudalen Facebook a siaradwch â'n tîm heddiw er mwyn gweld sut y gallwn eich helpu i gyrraedd y man lle'r ydych yn dymuno bod.



Pob Lwc yn Eich Cartref Newydd!

Ddydd Llun 17 Ionawr 2022, gwnaethom gwblhau ein heiddo rhentu i berchnogi cyntaf ar ein datblygiad newydd ym Maes Corton, Llanandras, Powys. Llongyfarchiadau i Mr Zinedine Griffiths-Haigh a Mrs Bethany Griffiths-Haigh sydd wedi symud i un o'r deg eiddo rhentu i berchnogi.

Mae dau fyngalo pâr â dwy ystafell wely ar gael o hyd dan y cynllun rhentu i berchnogi yn y datblygiad newydd. Mae ceisiadau am y cartrefi hyn yn cael eu rheoli gan Morris Marshall & Poole. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <https://www.morrismarshall.co.uk/property-for-sale/powys/ld8-2ld/2319682> neu cysylltwch yn uniongyrchol â Morris Marshall & Poole i wneud cais.



Archwilio Ystadau

Bu aelodau Grŵp Monitro Barcud yn archwilio dwy ystâd yn y Drenewydd ddiwedd mis Medi 2021.

Aeth staff o Barcud gyda'r grŵp o bump o denantiaid i gynnal yr archwiliadau.

Nododd aelodau'r grŵp â'u llygaid barcud rai problemau a oedd yn cynnwys achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon, peryglon a allai beri i rywun faglu, ac arwyddion yr oedd angen eu diweddarau ar yr ystadau er mwyn cynnwys logo Barcud.

Nododd aelodau'r grŵp hefyd fod y ddwy ystâd yn cael eu cadw'n gymen iawn, yn enwedig y gerddi cymunedol ar un o'r ystadau, a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw yn eithriadol o dda. Mae un o'r preswylwyr wedi bod yn gofalu'n ddiwyd am y gerddi ers nifer o flynyddoedd.

Mae archwilio ystadau yn un o nifer o ffyrdd y mae tenantiaid yn helpu i fonitro gwasanaethau ar draws Barcud, ac rydym yn gwerthfawrogi mewnbyn y tenantiaid yn fawr.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan yng ngwaith Barcud a helpu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi, cofiwch gysylltu â ni drwy ffonio 0300 111 3030 neu anfon e-bost i post@barcud.com



D diweddaraf am Waith Atgyweirio a Chynnal a Chadw

Dylid gwneud pob cais am waith atgyweirio a chynnal a chadw trwy Dîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid Barcud ar 0300 111 3030 neu post@barcud.cymru. Sylwer: Ni fydd gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn cael ei gofnodi na'i gyflawni os byddwch yn cysylltu'n uniongyrchol ag EOM i ofyn am waith.

Partneriaeth Wych ar Gyfer Arbed Ynni in Gymorth i Preswylwyr Barcud

Astudiaeth Achos am un o Breswylwyr y Canolbarth

Aeth Megan i ofyn am gyngor gan Cyngor ar Bopeth Ceredigion oherwydd ei bod yn cael anhawster gwresogi ei chartref. Mae'n byw mewn rhan wledig o'r sir, lle nad oes modd cael nwy o'r prif gyflenwad. Roedd pwysau ar ei hincwm a'i gwariant yn ystod y pandemig, roedd mewn dyled i'w chyflenwr trydan ac roedd ganddi ddyledion eraill hefyd o ganlyniad. At hynny, roedd rhai o'r teclynnau a oedd ganddi yn y gegin yn hen ac yn ddiffygiol. Roedd Megan yn wynebu cyfyng gyngor – a ddylai wario ei harian ar fwyd neu ar wres.

O ganlyniad, roedd Megan yn poeni'n fawr ac yn teimlo'n bryderus ac roedd y problemau yr oedd yn eu hwynebu yn cael effaith niweidiol ar ei lles a'i hiechyd corfforol a meddyliol.

Trwy weithio gyda Megan, mae Cyngor ar Bopeth wedi gallu ei helpu i gyllidebu, rhoi trefn ar ei dyledion a chael gafael ar dalebau bwyd. Cafodd Megan grant i ddileu ei dyled o bron £900 i'w chwmmi trydan. Mae hefyd wedi manteisio ar y disgownt cartrefi clyd o £140 i'w helpu i dalu am ei thrydan y gaeaf hwn, ac mae wedi cael ei hychwanegu at y gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth. At hynny, mae wedi cael cymorth i gyflwyno cais llwyddiannus am grant i brynu ffwrn drydan newydd a pheiriant golchi newydd – y mae'r ddau ohonynt yn gwneud defnydd effeithlon o ynni.

Mae Megan wedi cadarnhau bod ei hymdeimlad o les a gwytnwch wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad.

Os oes angen cymorth arnoch gyda phroblemau tebyg, cysylltwch â:

Cyngor ar Bopeth 01239 621974 - Dydd Llun i Ddydd Iau 9am-3pm



barcud

Y Grant Cymorth Tai – Arolwg o’n Cynlluniau

Diolch i'r holl denantiaid yn ein Cynlluniau Tai Gwarchod yng Ngheredigion a neilltuodd amser i gwblhau'r arolygon hyn. Cawsom 194 o arolygon yn ôl, ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn.

	Oes	Nac Ydw	Dim Ateb
Ydych chi'n teimlo bod y cymorth a gewch gan eich Cydlynnydd Cynllun ar y safle'n eich galluogi i fyw'n annibynnol yn eich cartref?	192	2	2
Ydych chi'n credu bod cael yr un Cydlynnydd Cynllun penodedig ar y safle yn eich helpu i gael cymorth a gwasanaethau eraill?	189	2	3
Oeddech chi'n teimlo bod y cymorth a gawsoch gan eich Cydlynnydd Cynllun ar y safle wedi eich helpu yn ystod y pandemig Covid?	183	5	6
Fyddech chi'n pryderu pe bai'r Gwasanaeth Cydlynnydd Cynllun ar y safle'n cael ei gwtogi?	178	9	7
Ydych chi'n edrych ymlaen at gael digwyddiadau cymunedol a chrosawu sefydliadau allanol yn ôl i'ch Cynllun?	166	12	16

Cafodd y canlyniadau hyn, ynghyd â'ch sylwadau, eu defnyddio yn rhan o broses dendro'r Grant Cymorth Tai er mwyn sicrhau bod eich safbwyntiau'n cael eu hystyried wrth lunio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi cyn gynted ag y bydd yn dod i law.

Galwyr Digroeso / Sgamwyr

Yn ddiweddar, rydym wedi dod i wybod am achosion lle mae pobl yn curo ar ddrysau gan honni mai staff neu gontractwyr Barcud ydynt, pan nad yw hynny'n wir. Er mwyn cadw'n ddiogel, dilynwch yr arweiniad isod.

Peidiwch â gadael neb i mewn i'r tŷ oni bai eich bod yn eu disgwyl neu'u bod yn ffrind, yn aelod o'r teulu neu'n weithiwr proffesiynol yr ydych yn ymddiried ynddo. Peidiwch â theimlo cywilydd am droi rhywun i ffwrdd.

Gofynnwch am gael gweld cerdyn adnabod. Bydd gan holl gontractwyr a staff Barcud gerdyn adnabod; dylech ofyn am gael gweld manylion adnabod bob amser – os yw'r unigolyn yn galw am reswm dilys, ni fydd ots ganddo eich bod yn gofyn. Os ydych yn ansicr, ffoniwch ni ar 0300 111 3030.

Dyma rai sgamiau cyffredin eraill:

- Swyddogion ffug: Pobl sy'n honni eu bod yn dod o'ch cwmni cyfleustodau, er mwyn ceisio cael mynediad i'ch cartref. Gwiriwch fanylion adnabod unrhyw swyddog bob amser, ac os yw'n galw am reswm dilys, ni fydd ots ganddo aros tra byddwch yn eu gwirio.
- Casglwyr elusen ffug: Mae'n bosibl y bydd twyllwr yn esgus ei fod yn galw ar ran elusen

ac yn gofyn i chi roi arian, dillad neu nwyddau'r cartref. Bydd gan bob elusen ddilys rif elusen y gellir ei wirio ar wefan y Comisiwn Elusennau.

- Arolygon defnyddwyr ffug: Weithiau, bydd sgamwyr yn gofyn i chi gwblhau arolwg er mwyn iddynt gael gafael ar eich manylion personol, neu'n ei ddefnyddio fel ffordd o ddwyn perswâd arnoch i brynu rhywbeth nad oes ei angen na'i eisiau arnoch.
- Straeon am anffawd: Mae'n bosibl y bydd rhywun yn dod i'ch drws ac yn gofyn i chi ei helpu ag arian parod, yn gofyn am gael defnyddio eich ffôn neu'n honni ei fod yn teimlo'n sâl. Nid yw'r stori yn wir, a'r bwriad yw eich twyllo i roi arian iddo neu gael mynediad i'ch cartref.



Ffôn a Band Eang Fforddiadwy

Os ydych ar incwm isel neu os ydych yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael gwasanaethau ffôn a band eang am bris is.

Mae gwahanol ddarparwyr yn cynnig gwasanaethau fforddiadwy i gwsmeriaid cymwys, a chaiff y rhain eu hamlinellu isod.

Yn ddiweddar, lansiodd BT ei becyn Home Essentials, sy'n darparu gwasanaeth ffôn a band eang am bris is i deuluoedd sy'n cael budd-daliadau penodol. Mae'r gwahanol opsiynau yn amrywio o £10 i £20 y mis.

Mae pecyn Essential Broadband Virgin Media ar gael i bobl sydd eisoes yn gwsmeriaid i Virgin Media ac sy'n cael Credyd Cynhwysol. Mae'r pecyn yn darparu band eang yn unig am £15 y mis ar gontract treigl 30 diwrnod.

O ran cynlluniau ffonau symudol, mae gwahanol gwmnïau megis Three, Lebara, Smarty a Vodafone yn cynnig pecynnau rhad am rhwng £5 a £6 y mis ar gyfer cerdyn SIM yn unig, heb fod unrhyw ofynion arbennig i'w bodloni er mwyn eu cael.

Mae bob amser yn werth siopa o gwmpas a chael gafael ar unrhyw dariffau arbennig sydd ar gael er mwyn cadw mewn cysylltiad.



Cynllun Rhentu i Berchnogi Newydd gyda Chymorth Llywodraeth Cymru, Dôl Dalis, Llanbedr Pont Steffan ar Gyfer Barcud.

Ydych chi'n awyddus i brynu eich cartref cyntaf? Ydych chi'n ei chael yn anodd cynilo ar gyfer blaendal?

Mae'n bosibl mai Rhentu i Berchnogi Cymru yw'r ateb.

Ar gael cyn bo hir: 8 cartref newydd yn **Nôl Dalis** oddi ar Heol Llanfair ar gyrion tref brifysgol **Llanbedr Pont Steffan**. Mae'r cartrefi yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cwblhau (yn ystod gwanwyn 2022) gan T R Jones Ltd ar ran Barcud.

Bydd yr eiddo, sydd â golygfeydd hyfryd dros Ddyffryn Teifi, yn cynnwys:

- 4 tŷ pâr â dwy ystafell wely
- 4 tŷ pâr â thair ystafell wely

Mae'r Cynllun Rhentu i Berchnogi yn rhoi cyfle unigryw i unigolion gynilo ar gyfer blaendal tra byddant yn talu rhent y farchnad. Dan y cynllun, byddech yn rhentu'r eiddo am o leiaf 2 flynedd ac yn cael cyfle i brynu'r eiddo cyn pen 5 mlynedd. Wrth brynu'r eiddo, byddech yn cael 25% o'r rhent a dalwyd dros gyfnod y denantiaeth yn ôl ynghyd â 50% o unrhyw gynnydd yng ngwerth yr eiddo.

Mae'r tai, sy'n dai pâr, yn cynnwys cegin/ardal fwyta o faint da, lolfa a thŷ bach/cawod ar y llawr gwaelod, ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf ac ystafelloedd gwely o faint da. Y tu allan, mae gardd gefn â sied yn ogystal â lle i barcio oddi ar y stryd.

Mae mwy o arweiniad ynghylch y cynllun Rhentu i Berchnogi ar gael o ofyn i'r unig asiant. Os oes gennych ddi-ddordeb, cofrestrwch eich diddordeb gyda Morgan and Davies a fydd yn eich cynghori ynghylch y cam nesaf ac yn rhoi manylion llawn yr eiddo i chi.

I gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â Morgan and Davies (Swyddfa Llanbedr Pont Steffan) ar 01570 423623 neu drwy e-bost: lampeter@morgananddavies.co.uk





barcud

FFORWM CYSWLLT TENANTIAID

Dydd Iau
10fed o Mawrth 2022
11.00am – 12.30pm

Yn ddigidol y cynhelir y digwyddiad hwn ac fe fyddwch yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod drwy blatfform cyfarfodydd ar lein RingCentral (Zoom).

Gellir cael mynediad at hwn gan ddefnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar.

Os nad oes gennych yr un o'r rhain fe ellwch o hyd ddeialu i mewn, gan ddefnyddio llinell dir neu ffôn symudol.

Efallai y bydd lleoedd yn gyfyngedig, felly mae rhaid ichi gofrestru i ddod i'r Fforwm erbyn dydd Gwener 4ydd Mawrth. Gellwch chi wneud hyn drwy anfon at: post@barcud.cymru neu drwy ffonio: 0300 111 3030. Fe gewch y manylion ymuno ar gyfer y Fforwm ar ôl ichi gofrestru.

Bydd staff ar gael os oes arnoch chi angen help a chefnogaeth neu "sesiwn brawf" ymlaen llaw. Fe wnaiff Barcud gwrdd ag unrhyw gost resymol a gewch os bydd rhaid ichi ddeilau i mewn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech iddynt gael eu gofyn yn y Fforwm, neu os oes arnoch chi angen rhagor o wybodaeth, anfonwch at: sue.thomas@barcud.cymru neu ffoniwch 01570 424313.

Fe gaiff y digwyddiad hwn ei recordio ac efallai y caiff ei roi ar gael drwy gyfryngau cymdeithasol.

Agenda

11.00 am

Croeso a diweddariad

Paul Clasby

Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud

11.20 am

**Diweddariad arolwg STAR
Deddf Rhentu Cartrefi
(Cymru) 2016**

Eleri Jenkins

Cyfarwyddwr Grŵp Tai a Chefnogaeth

11.50 am

Toriad

12.00 pm

Ble mae eich rhent yn mynd?

Kate Curran

Group Cyfarwyddwr Grŵp Cyllid a TG

12.20 pm

Sesiwn holi ac ateb

Steve Jones

Prif Weithredwr Grŵp

12.30 pm

**Diolchiadau
a chau**